# Cylchlythyr Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

Hydref 2022







## BPRh yn fyr

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys (BPRh) yn dod â nifer o gynrychiolwyr gwasanaethau cyhoeddus ynghyd, megis Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Cyngor Sir Powys a'r Trydydd Sector. Mae'r bwrdd yn cwrdd bob dau fis ac yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli buddiannau dinasyddion a gofalwyr di-dâl.

Ein cenhadaeth yw gwella iechyd a lles y boblogaeth a sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu cyflwyno. Rydym yn sicrhau fod gwasanaethau yn canolbwyntio ar gyflawni'r hyn sy'n cyfrif i bobl a chymunedau.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am Nawdd Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth eang o fentrau megis Cysylltwyr Cymunedol, Gwasanaeth Cyfeillio Powys a Gofalwyr Ifanc.

I ddysgu mwy am y BPRh, edrychwch ar: www.powysrpb.org

## Cwrdd â'n Cadeirydd ac Is-gadeiryddion



Yn y llun o'r chwith i'r dde: Cyng. Sian Cox, Carl Cooper, Kirsty Williams

Ar hyn o bryd, Carl Cooper Prif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol, yw Cadeirydd Bwrdd PRP. Cafodd Carl ei benodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ddiweddar a bydd yn cyflwyno'i brofiad o bartneriaethau i'r rôl newydd dros y misoedd nesaf.

Mae dau Is-gadeirydd yn ymuno ag ef sef y Cyng. Sian Cox, Aelod o Gabinet Cyngor Sir Powys ar gyfer Powys sy'n Gofalu a Kirsty Williams, Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

## Dinasyddion a Gofalwyr sy'n Aelodau ››

Mae'n bleser gen i rannu ein Cylchlythyr gyda chi. Mae'n bleser croesawu aelodau newydd i'r bwrdd, gan gynnwys aelod dinesydd newydd.

Rydym wedi ymrwymo i wneud y gorau o'r safbwyntiau newydd hyn wrth i ni barhau i ddatblygu ein partneriaeth i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau.

Mae ein Strategaeth Iechyd a Gofal a'r Cynllun Ardal cysylltiedig yn parhau i osod blaenoriaethau'r bartneriaeth. Dros y misoedd nesaf byddwn yn adolygu'r strategaeth, gan ddefnyddio'r ymchwil ac adborth yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth a'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad. Bydd hyn yn ein galluogi i adnewyddu'r strategaeth i sicrhau bod ein gwaith y tu hwnt i 2023 yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl, ac yn helpu i gefnogi llesiant unigolion, aelwydydd a chymunedau

Byddwn yn canolbwyntio ar brif feysydd blaenoriaeth y bartneriaeth i wneud y gwahaniaeth mwyaf yn y mannau pwysicaf. Rydym yn wynebu heriau sylweddol, yn bennaf effaith barhaus y pandemig a'r galwadau ychwanegol yn ystod misoedd y gaeaf. Un o flaenoriaethau'r bartneriaeth fydd i gefnogi trosglwyddiad pobl o ysbytai a sicrhau bod gofal a chefnogaeth ddigonol i bobl gartref.

Bydd ein ffocws ar ddyheadau'r dyfodol yn ogystal ag anghenion presennol. Mae rhaid inni sicrhau cydbwysedd rhwng mynd i'r afael â phwysau ychwanegol dyrys i gefnogi pobl drwy'r gaeaf, tra'n parhau â'n hymdrechion i drawsnewid y system iechyd a gofal yn y tymor canolig i'r tymor hirach.


Mae'n anrhydedd cymryd rôl y Cadeirydd ar adeg pan fo cydweithio yn bwysicach nag erioed. Hoffwn ddiolch i'r holl bartneriaid am eu diwydrwydd a'u hymroddiad wrth i ni weithio i wella pethau i bobl Powys

Carl Cooper

# Dinasyddion a Gofalwyr sy'n Aelodau

Nid yn unig y mae cyfranogiad aelodau sy'n ddinasyddion ac aelodau ar y Bwrdd a'i bartneriaethau yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer y gwaith ac yn siapio penderfyniadau, ond mae'n cynnig ffordd well hefyd o ddeall 'yr hyn sy'n cyfrif' i bobl.

Mae dau aelod dinesydd a dau aelod gofalwr gan y Bwrdd sy'n aelodau llawn a chyfartal o'r BPRh. Rydym yn croesawu Helen Wear fel ein haelod dinesydd newydd a dderbyniodd ei rôl ar y Bwrdd yr haf hwn.


Helen Wear


Carl Strack

Mae Helen yn ymuno â Carl Strack sydd wedi bod yn aelod o'r BPRh ers 2020. Ein haelodau gofalwyr yw Meiriona Davies a Kim Spelman. Bydd pob aelod dinesydd neu ofalwr yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd.

Ymunodd Kim â'r BPRh yn gynharach eleni a dim ond ychydig fisoedd sy'n weddill gan Meiriona cyn iddi drosglwyddo'r awennau i aelod gofalwr newydd. Fe fyddwn yn clywed mwy oddi wrth Meiriona yn y rhifyn nesaf.
Mae ein haelodau dinasyddion a gofalwyr yn cael eu cefnogi i gymryd rhan yn llwyr yng ngwaith y bwrdd. Mae ein cynrychiolwyr o Bowys wedi chwarae rhan weithgar yng nghrŵp Llywodraeth Cymru i lunio siarter dinasyddion a chyd-ddylunio atebion i gefnogi dinasyddion, gofalwyr, y trydydd sector a chynrychiolwyr darparwyr led led Cymru. Bydd mwy am hyn y tro nesaf.


Meiriona Davies



Kim Spelman

Gan wneud sylwadau ar y gwaith hwn ar y siarter yn gynharach eleni, dywedodd ein haelod dinesydd blaenorol, Sian Dorward:

> "Mae wedi bod yn ddiddorol iawn i weld sut mae BPRhau eraill led led Cymru yn gweithio gyda'u cynrychiolwyr dinasyddion ac er nad oes gennym yr holl atebion ym Mhowys, rydym ben ac ysgwyddau ar y blaen."

Diolch enfawr i'r aelodau dinasyddion a gofalwyr am eu gwaith gwerthfawr ar y bwrdd a thu hwnt. Os oeddech eisiau canfod mwy am ddod yn gynrychiolydd gofalwyr neu ddinasyddion neu am awgrymu rhywun a fyddai'n awyddus i dderbyn y rôl, cysylltwch ag andrew.davies@pavo.org.uk

# Adroddiad Blynyddol




Mae'r newyddion diweddaraf ar weithgaredd y Bwrdd wedi'i gyhoeddi erbyn hyn. Mae'r Adroddiad Blynyddol diweddaraf yn amlinellu'r prif gynnydd a heriau rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, gan edrych yn fyr ar flaenoriaethau i'r Bwrdd wrth symud ymlaen. Mae uchafbwyntiau yn cynnwys:

- Lansio'r Academi Iechyd a Gofal a phrentisiaethau Kickstart.
- Powys Gyda'n Gilydd yn cyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, a'u teuluoedd.
- Cefnogaeth well i blant ar ffiniau gofal i barhau gyda'u teuluoedd.
- Cynnydd yn argaeledd technoleg ddigidol i alluogi mwy o bobl hŷn i barhau yn eu cartrefi.
- Cysylltwyr Cymunedol sy'n cefnogi pobl yn gynnar i atal yr angen am wasanaethau mwy costus ac ymwthiol.
-  Gwasanaethau diagnosteg cwsg a gofal llygaid newydd ar waith
- Lansio Cynllun Waled Rithiol i helpu'r sawl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol i reoli gofal eu hunain.

Mae'r adroddiad hefyd yn trafod gwaith trawsbynciol megis gofalwyr, Gwella'r Daith Ganser, ymgysylltu â dinasyddion ac ymchwil.

Gallwch weld yr adroddiad blynyddol yn llawn yma neu edrychwch ar: www.powysrpb.org

## Cadw mewn cysylltiad

Eisiau gwybod mwy am sut mae'r BPRh yn gweithio a'r hyn mae'n ei wneud yn eich ardal chi?

Email us at **prpb@powys.gov.uk** with any questions.

**@PowysRPB** **www.powysrpb.org**

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys Iechyd a Gofal Cymdeithasol | One Powys Yn Un | Powys Regional Partnership Board Health and Social Care

Llywodraeth Cymru Welsh Government